LG 32
Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)
Local Government and Elections (Wales) Bill
Ymateb gan: Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Response from: Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

E-bost:
Seneddcommunities@Assembly.Wales

Gofynner am/ Please ask for: Y Prif Swyddog Tân Chris Davies

Rhif Est/Extn. No. 4401

E-bost/E-mail: [redacted]

Fy Nghyf/My Ref: CD/MT

Eich Cyf/Your Ref:

Dyddiad/Date: 3 Ionawr 2020

Annwyl Syr/Fadam

Gweler isod ymateb Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru):

Cefndir

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae materion yn ymwneud â llywodraethu ac ariannu'r Awdurdodau Tân ac Achub wedi cael eu trafod a'u dadlau rhwng Llywodraeth Cymru ac arweinwyr strategol Awdurdodau Tân ac Achub Cymru a Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru. Roedd y materion hyn yn sail i Bapur Gwyn 2018 Llywodraeth Cymru, sef 'Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru', ac roeddent naill ai wedi cael eu gwrthod ar unwaith neu heb gael fawr o gefnogaeth gan ymatebwyr. O'u hystyried ochr yn ochr â'r Papur Gwyn blaenorol, mae'n ymddangos nad oes gan y darpariaethau a amlinellir yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) drafft sylfaen dystiolaeth ddibynadwy na chefnogaeth y cyhoedd.

Adran 162

Mae adran 162 yn cynnig newidiadau i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 er mwyn dileu'r gofyniad am ymchwiliad cyhoeddus mewn rhai amgylchiadau. Cyfeiriodd Papur Gwyn 2018 yn benodol at yr angen i sicrhau bod atebolrwydd democrataidd a thryloywder wrth wraidd prosesau llywodraethu'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Byddai'r diwygiadau a gynigir yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn negyddu'r angen am ymchwiliad cyhoeddus, ac eithrio pan fyddai'r Gorchymyn Cyfunol i gael ei ddirymu neu newidiadau i'w gwneud i ffiniau'r Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'n anodd gweld sut y bydd hyn yn arwain at arweinyddiaeth gliriach neu fwy atebol, neu at gyllid mwy cynaliadwy ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub, fel yr honnir yn y Memorandwm Esboniadol cysylltiedig. Mae'n ymddangos nad yw'r datganiadau hyn yn gywir nac yn seiliedig ar dystiolaeth, ac felly nid ydynt yn gwneud fawr ddim i hyrwyddo'r ddadl y bydd y newidiadau

arfaethedig yn arwain at welliannau i'r trefniadau llywodraethu neu ariannu ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub, gan felly hefyd fod o fudd i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Adran 163

Mae'r cynnig i symud oddi wrth y trefniadau rheoli perfformiad cyfredol o dan Fesur 2009 yn cael ei gefnogi'n fras, er mai prin yw'r manylder yn y Bil. Nid yw'r trefniadau cyfredol yn addas i gyd-destun Awdurdodau Tân ac Achub, sef barn a gadarnhawyd gan ymatebwyr i Bapur Gwyn 2018. Felly, mae yna gefnogaeth ar gyfer system rheoli perfformiad newydd sy'n seiliedig ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub. Fodd bynnag, dylai'r system rheoli perfformiad newydd adlewyrchu a chydnabod y gwahaniaethau yn y risgiau mewn cymunedau, ynghyd â'r dulliau rhanbarthol o ymdrin â strategaethau atal cyfannol.

Crynodeb

Cyfeiriodd Papur Gwyn 2018 hefyd at natur uchel ei berfformiad yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, ac mae'n amlwg bod yr holl Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wedi chwarae eu rhan yn lleihau costau yn ystod y degawd diwethaf. Yn yr un modd, mae'r Awdurdodau Tân ac Achub wedi croesawu newid yn y sector cyhoeddus yn llawn, ac mae tystiolaeth o hyn i'w weld yn y broses o fabwysiadu dyletswydd statudol ar gyfer digwyddiadau achub llifogydd a dŵr, Cydnerthedd Cenedlaethol, Ymateb Meddygol Tân, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a rhaglen atal ac addysg gynhwysfawr. O safbwynt cyllidebol, mae'r cyllid ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cyfrif am oddeutu 1% o wariant y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac felly prin yw'r cyfleoedd i wireddu arbedion effeithlonrwydd go iawn. Fodd bynnag, mae yma gyfle sylweddol i gael effaith negyddol ar wasanaeth cyhoeddus hanfodol y gellir ymddiried ynddo, ac sydd wedi arwain y ffordd o ran mentrau diogelwch ac atal yn y gymuned.

Yn gywir,

Chris Davies QFSM MBA
Prif Swyddog Tân